

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go

.

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Hannah Russell, Ieithoedd Modern.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Cefais fy magu'n siarad Saesneg yn unig, ond astudiais Sbaeneg ac Almaeneg ar lefel TGAU a Safon Uwch. Penderfynais barhau gyda Sbaeneg yn y brifysgol a manteisiais ar y cyfle hefyd i ddysgu rhywbeth newydd a dysgu Eidaleg.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Pan oeddwn i yn yr ysgol uwchradd a phan wnaeth cyfleoedd godi i fi fynd ar dripiau dramor. Nes i sylweddoli bryd hynny pa mor ddefnyddiol yw gallu siarad yr iaith leol. Ond nes i ddim sylwi tan i fi gael fy swydd ran-amser gyntaf, pan fyddwn i'n aml yn dod ar draws twristiaid ar eu gwyliau yn y DU, pa mor bwysig yw hi i bobl gael rhywun sy'n gallu siarad gyda nhw yn eu hiaith eu hunain; s'dim rhaid gallu ei siarad yn berffaith.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae wedi fy helpu i gyfarfod cymaint o bobl newydd a gwneud ffrindiau gyda nhw, yn enwedig yn y brifysgol lle mae cymaint o bobl o bob cwr o'r byd. Ond yn fwy na hynny, mae wedi rhoi dealltwriaeth ehangach i fi o sut mae'n teimlo i drio dysgu diwylliant ac iaith hollol newydd, gan ganiatáu i fi ddeall sut mae pobl o wledydd eraill yn teimlo, hyd yn oed os dwi ddim yn siarad eu hiaith nhw.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
Mae wedi fy helpu gymaint wrth weithio ym maes lletygarwch. Mae'n sgil gadarn sy'n rhoi'r gallu i ti siarad gyda chwsmeriaid yn well. Ond mae'r sgiliau meddal sy'n deillio o ddysgu iaith, fel amynedd, sgiliau cyfathrebu a dysgu i fynegi dy hun yn glir i gyd yn bwysig ac yn ddefnyddiol iawn yn y gweithle. Mae cael ieithoedd ar fy CV yn rhywbeth sy'n gwneud i fi sefyll allan o gymharu â'r gweddill pan dwi'n ymgeisio am swyddi, ac mae'n sgil wych sy'n werthfawr iawn i gyflogwyr.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
Byddwn i wrth fy modd yn mynd i ddysgu ar ôl i fi raddio. Mae gallu siarad sawl iaith yn golygu y bydda i'n gallu dysgu dramor yn llawer haws, a gweithio a theithio ar yr un pryd.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
Gweld ymateb pobl pan fydda i'n cychwyn sgwrs gyda nhw yn eu hiaith frodorol. Mae e'n golygu cymaint i bobl, ac mae e'n hwyl hefyd.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
Mae gallu darllen llyfrau/cerddi/erthyglau yn yr iaith wreiddiol yn rhoi cymaint mwy o ystyr iddyn nhw. Wnes i erioed sylweddoli o'r blaen faint sy'n gallu mynd ar goll wrth gyfieithu!

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
Cael pobl yn dweud bod dim pwynt dysgu ieithoedd, gan fod "pawb yn siarad Saesneg beth bynnag." Dyw e ddim yn wir! Mae siarad iaith arall yn rhoi'r

[www.mflmentoring.co.uk](http://www.mflmentoring.co.uk)
**Trydar** @MFLMentoring
**Instagram** @MFLMentoring
**LinkedIn** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

cyfle i ti gyfathrebu gyda chymaint mwy o bobl na fyddet ti'n gallu ei wneud fel arall, ac ar lefel fwy dwfn. Beth bynnag, mae dysgu iaith yn hwyl, ac mae hynny'n hen ddigon o reswm i'w hastudio.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    Yr ymadrodd Sbaeneg, "*para gustos hay colores*". Yn llythrennol, mae'n golygu, "i bob chwaeth, mae lliwiau", ond mewn gwirionedd mae'n debycach i "pawb at y peth y bo". Dwi wrth fy modd gyda'r ddelwedd o safbwyntiau ar sbectrwm parhaus, yn union fel lliwiau.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Byddwn i wrth fy modd yn gallu siarad Arabeg, oherwydd mae'n cael ei siarad mor eang ac mae ei chefndir diwylliannol mor gyfoethog, a byddai hyn yn ei gwneud yn ddiddorol iawn i'w hastudio.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae wedi fy ngalluogi i rannu fy angerdd dros ddysgu ieithoedd gyda phobl ifanc, ac mae'n fy atgoffa pam nes i benderfynu astudio ieithoedd yn y lle cyntaf.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Dwi'n credu bod gweld pa mor angerddol oedd fy athrawon ysgol am ddysgu ieithoedd wedi fy ysbrydoli'n fawr. Roedd eu clywed nhw'n siarad am astudio a theithio dramor yn gwneud i fi fod eisiau gwneud yr un peth!

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Ychydig flynyddoedd yn ôl roeddwn i yn Sbaen, a nes i drio

archebu hufen iâ mewn côn (cucurucho), ac ar ddamwain nes i ofyn am hufen iâ mewn chwilen ddu (cucharacha)! Ges i olwg bryderus iawn gan y gweithiwr!

15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
Byddwch yn amyneddgar. Weithiau, byddwch yn teimlo nad ydych yn gwneud unrhyw gynnydd, ond ry'ch chi'n gwybod mwy na chi'n meddwl!

